

## VTCT Diploma mewn Therapi Harddwch Lefel 2



### Yn gwyno

Mae'r cwrs Lefel 2 mewn Therapi Harddwch ar gyfer y rheini sydd am ddechrau gweithio yn y diwydiant harddwch neu symud ymlaen o Therapi Harddwch Lefel 1 i'r triniaethau Therapi Harddwch mwyaf safonol.

### Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych chi ddiddordeb brwd mewn Therapi Harddwch

... Ydych chi am ddysgu sgiliau a thechnegau harddwch newydd i wella eich gallu presennol ymhellach.

... Ydych chi'n ystyried gyrfa fel Therapydd Harddwch

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn dysgu am ymgynghori â chleientiaid ac yn astudio unedau cleientiaid megis:



# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Trin dwylo  
Trin traed  
Trin wynebaw  
Wacsio  
Colur  
Dyletswyddau derbynfa'r salon  
Iechyd a Diogelwch  
Gofal cleientiaid  
Trin blew amrant ac aeliau

Lliw haul  
Codi blew amrant  
Estyniadau Aeliau - cyflwyniad

Ym mhob un o'r unedau hyn, byddwch yn cael asesiadau ymarferol i ddangos cymhwysedd ymarferol, yn ogystal ag arholiadau ac aseiniadau a fydd yn cwmpasu holl ganlyniadau'r meini prawf i sicrhau y cyflawnwyd pob un ohonynt.

## **Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Disgwylir i chi fynychu pob sesiwn, gweithio'n galed a chynnal asesiadau ymarferol ar gleientiaid sy'n talu, gan fod y salon yn sefydliad hyfforddi realistig.

Bydd angen i chi fod yn hunanysgogol, yn weithgar, yn ymfalchïo yn eich ymddangosiad a meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar.

Bydd disgwyl i chi weithio ar gleientiaid sy'n talu a mynychu lleoliad gwaith fel rhan o'r rhaglen.

## **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl Lefel 2 mewn Therapi Harddwch, byddwch chi'n gallu symud ymlaen i Lefel 3 er mwyn uwchsgilio eich triniaethau harddwch.

Neu, gan ddibynnu ar eich set sgiliau a'ch opsiynau, gallech symud ymlaen i Lefel 3 mewn Technoleg neu Golur Theatrig.

Ar ôl gorffen y cwrs hwn, byddwch chi hefyd yn gymwys i gynnig Lamineiddio Aeliau.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Gwybodaeth Ychwanegol

Cod Gwisg:

Gwisg Unffurf

Rhaid clymu gwallt yn ôl yn daclus i ffwrdd o'r wyneb

Gwisgwch golur bob dydd

Dim tyllu: dim ond modrwy briodas y caniateir ei gwisgo yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r cit priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy sy'n costio tua £86 yn amodol ar adolygiad / prisiau'n codi oherwydd chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg, gydag opsiynau i dalu ein cyflenwr, gan eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw tua £45, yn amodol ar prisiau'n cynyddu oherwydd chwyddiant.

Gellir codi costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau dan adolygiad ac maent yn amodol ar newid.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

